urdd.org

Urdd Gobaith Cymru
Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	Swyddog Technoleg Gwybodaeth
Yn atebol i:	Rheolwr Technoleg Gwybodaeth a thrwyddo ef i'r Prif Weithredwr ac yna Cyngor yr Urdd.
Cyflog:	Ar raddfa 6 Strwythur Cyflog yr Urdd £18,465 (Pwynt 1) hyd £21,406 (Pwynt 6). Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos. Yn achlysurol mae'n ofynnol i'r swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn. Gweithredir sustem oriau hyblyg.
Lleoliad:	Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad a'r Rheolwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo 3 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis.
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith.
Teithio:	Mae teithio yn rhan annatod o'r swydd, telir lwfans o 40c y filltir. Rhaid cael trwydded gyrru a defnydd o gar.
Gwiriad CRB:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (C.R.B.)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir fynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.

Dyletswyddau

1. Arwain gwaith cynnal a datblygu arddull, cynnwys a thechnoleg gwefannau'r Urdd.
2. Ymgymryd a phrosiectau technoleg gwybodaeth benodol mewn ymgynghoriad a'r Rheolwr Technoleg Gwybodaeth.
3. Cynnal a datblygu systemau bas data, meddalwedd ac offer yr Urdd gan ddewis technoleg addas mewn ymgynghoriad a'r rheolwr.
4. Cynnig cymorth i staff eraill ar sut i wneud y defnydd gorau posib o'r sustemau technoleg gwybodaeth a'r offer. Cynnig hyfforddiant yn achlysurol.
   Cynnig cymorth cyffredinol i'r Cynorthwy-ydd y We a leolir yn yr un swyddfa.
5. Gosod, datblygu a chynnal systemau rhwydwaith data, cynadleddau fideo a chyfathrebu yr Urdd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn effeithiol at ddibenion staff.
6. Gosod, datblygu a chynnal systemau cyfathrebu a rhwydwaith ar gyfer gweithgareddau fel yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
7. Cynnal systemau diogelu data a gwrth firws.
8. Unrhyw waith achlysurol arall.

Sgiliau

1. Mae cymhwyster gradd mewn technoleg gwybodaeth neu brofiad perthnasol blaenorol yn y maes yn angenrheidiol.
2. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a chael defnydd o gar. Bydd angen teithio i swyddfeydd eraill yr Urdd sawl gwaith y mis yn ogystal â digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol. Gall hyn olygu aros dros nos yn achlysurol (mewn ymgynghoriad a'r Rheolwr). Ar gyfer digwyddiadau fel yr Eisteddfod gall hyn olygu aros oddi cartref a gweithio oriau hirach am gyfnod o hyd at 2-3 wythnos. Bydd modd cymryd yr oriau dyledus yma yn ôl ar adegau cyfleus yn unol a'r amodau gwaith a amlinellir yn Llawlyfr Staff y Mudiad.

Rhaid i geisiadau gyrraedd Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth. Ceredigion. SY23 1EY erbyn hanner dydd, Mercher 3ydd Medi 2008